Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Aberbanc
# Ysgol Gymunedol Aberbanc
# Aberbanc
# Llandysul
# Ceredigion
# SA14 5NP

**Dyddiad yr arolygiad: 25 Medi, 2012**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/10/2012**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Aberbanc mewn ystafell yn yr ysgol gynradd. Ail leolwyd y Cylch i'w safle presennol yn 2009. Daw'r plant sy'n mynychu'r lleoliad o ardal eang ac maent yn trosglwyddo i ysgolion cynradd yn yr ardal. Bernir nad yw'r ardal yn freintiedig nag ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy i bedair oed am bum sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae ar agor rhwng 9:00 a 12:00 o'r gloch y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd pum plentyn tair oed ar y gofrestr yn cael eu hariannu gan Bartneriaeth Plant Ceredigion. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae arweinydd amser llawn a dwy ymarferwraig rhan amser yn darparu ar gyfer dysgu'r plant. Maent i gyd yn brofiadol ac yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Ar hyn o bryd, maent yn cael cymorth myfyrwraig o dan hyfforddiant. Penodwyd yr arweinydd i'w swydd yn 2007.

Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn yn Hydref 2005 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mai 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn;
- mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu;
- mae'r addysgu yn dda;
- darperir ystod eang o weithgareddau gwerthfawr gyda rhai enghreifftiau o ansawdd da iawn;
- mae'r amgylchedd dysgu yn ysgogol, diddorol a lliwgar; ac
- mae'r plant yn cael gofal da mewn awyrgylch cynhwysol a gwresog.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- arweinyddiaeth effeithiol y prif ymarferydd sydd yn darparu cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad;
- gwaith tîm da;
- ymrwymiad yr ymarferwyr i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- tystiolaeth o ddatblygu a gwella dros y blynyddoedd; a'r
- defnydd adeiladol o ystod o bartneriaethau sydd yn cefnogi'r dysgu.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu, mae angen i'r lleoliad:

A1 adeiladu ar yr arfer dda er mwyn ymestyn medrau llythrennedd Cymraeg y plant ymhellach;

A2 datblygu'r fframwaith cynllunio a gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth asesu i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu; a

A3 datblygu rôl y pwyllgor rheoli ymhellach.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sydd yn dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod eang o brofiadau dysgu diddorol sy'n llwyddo'n gyson i ennyn diddordeb y plant. Seilir y gweithgareddau ar gyfres o themâu sy'n addas i ystod oed y plant. Caiff y plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrannu at y cynllunio. Gwneir defnydd adeiladol o fframweithiau cwricwlaidd ar gyfer cynllunio'r ddarpariaeth gyffredinol. Mae'r arfer o nodi'r cyfleoedd a gynigir i ddatblygu medrau penodol drwy'r thema gyfredol yn nodwedd effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd cynyddol o fframwaith newydd yr awdurdod addysg ar gyfer cynllunio tasgau mwy manwl ar draws y meysydd dysgu.

Mae'r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd da i ddatblygu medrau cyfathrebu, rhifedd a medrau ehangach y plant trwy'r gweithgareddau dyddiol. Gwneir defnydd effeithiol iawn o symbyliadau, megis stori'r Tri Mochyn Bach, ar gyfer hybu medrau personol a chymdeithasol, cyfathrebu cynnar a mathemategol. Rhoddir sylw da i ddatblygu medrau ymchwiliol a chreadigol y plant trwy weithgareddau ymarferol gan gynnwys rhai yn yr ardaloedd allanol. Maent yn cynnwys y cyfleoedd da i arsylwi ar nodweddion yr hydref drwy ymchwilio i liwiau a phatrymau yn y coed a'r planhigion o amgylch. Mae defnydd da iawn o gelf i ddatblygu medrau a dealltwriaeth y plant ar draws y cwricwlwm.

Cymraeg yw cyfrwng naturiol bywyd a gwaith y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda'r plant yn ystod gweithgareddau ac yn manteisio ar bob cyfle i gyflwyno geirfa newydd. Caiff y plant eu hannog i gyfranogi'n llawn yn y gweithgareddau ond mae eu defnydd o'u medrau cyfathrebu Cymraeg yn anwastad. Cyflwynir y plant i draddodiadau a dathliadau Cymru, gan gynnwys dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yn effeithiol. Darperir cyfleoedd addas iddynt ddysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau pobl eraill trwy weithgareddau megis dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn effeithiol iawn i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae profiadau, megis tyfu a gofalu am blanhigion, bwydo'r adar, ymweld â siop ffrwythau, ailgylchu a chasglu sbarion bwyd i'w compostio, yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw.

Gwneir defnydd da o ymweliadau a gweithgareddau yn y gymuned i gefnogi dysgu'r plant. Maent yn cynnwys ymweliadau â gorsaf drên, Amgueddfa Wlân, caffi a llyfrgell.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth ddatblygol o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac maent yn darparu profiadau pwrpasol sydd yn sicrhau ymrwymiad gweithredol y plant yn eu dysgu. Gwnânt ddefnydd effeithiol o ystod o ddulliau addysgu ac mae cydbwysedd da rhwng cyflwyniadau grŵp a sylw i unigolion. Mae'r gweithgareddau wedi eu paratoi yn drylwyr a gwneir defnydd da o adnoddau i gynorthwyo'r addysgu a'r dysgu. Mae'r prif ymarferydd yn ychwanegu at yr adnoddau trwy greu llyfrynnau

pwrpasol i'r plant megis y llyfryn 'Dewch i adeiladu'. Mae'r ymarferwyr yn cynnig cymorth cyson i'r plant ac ymunant yn egnïol yn y gweithgareddau. Mae rhediad esmwyth i drefn y sesiynau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda a defnyddiant weithdrefnau addas i asesu a chofnodi eu cynnydd. Maent yn arsylwi ar ymateb y plant yn gyson wrth iddynt ymwneud â'u gweithgareddau ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Er hyn, nid yw'r wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio'n llawn i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu. Caiff rhieni eu hysbysu'n briodol am ddatblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Mae'r prif ymarferydd yn trafod cynnwys adroddiad y plentyn yn unigol gyda'r rhiant. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd berthnasol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae trefniadau effeithiol mewn lle i gefnogi iechyd a lles plant. Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar gydag awyrgylch deuluol sy'n cyfrannu'n arwyddocaol tuag at les y plant. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, pan mae angen, ac mae llinellau cyfathrebu clir gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Mae'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn ymwybodol o'r gofynion. Ymgymerir ag asesiadau risg yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Hyrwyddir gwerthoedd fel tegwch, caredigrwydd, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir a'r hyn sy'n anghywir, yn effeithiol drwy'r cwricwlwm a'r gweithgareddau dyddiol. Mae profiadau, megis dathliadau diolchgarwch a'r Nadolig, yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant. Mae'r cyfleoedd i blant berfformio mewn cyngherddau bach ar gyfer y rhieni ac aelodau'r gymuned yn cyfrannu'n bellach at eu datblygiad cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn ymateb yn briodol..

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr profiadol i gyflwyno'r cwricwlwm. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd a diddordebau unigolion ar gyfer arwain a chefnogi gweithgareddau.

Mae'r amgylchedd mewnol ac allanol yn cymell ac yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn effeithiol iawn. Gwneir defnydd da iawn o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau amrywiol o amgylch yr ystafell. Llwyddir i greu amgylchedd cynnes a symbylus trwy arddangos gwaith y plant a chreu arddangosfeydd lliwgar i gyd-fynd â'r themâu dan sylw. Gwneir defnydd pwrpasol o'r

ardaloedd allanol sydd yn darparu cyfleoedd da i'r plant ymchwilio a chwarae. Gwneir defnydd llawn o'r cyflenwad da o adnoddau yn y lleoliad, ac o adnoddau'r gymuned, i gefnogi'r dysgu.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

O dan arweiniad cadarn a brwdfrydig y prif ymarferydd, llwyddir i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau sydd yn arwain at greu gwaith tîm da. Maent yn meddu ar egwyddorion a gwerthoedd sefydlog sy'n seiliedig ar hyrwyddo datblygiad llawn bob plentyn. Caiff polisïau a gweithdrefnau eu rhoi ar waith yn briodol.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth parod i'r ymarferwyr. Mae gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn gweithio'n galed i godi arian. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion o'u trafodaethau, sydd yn sail i gynllunio pellach. Mae rôl y pwyllgor o ran arfarnu'r ddarpariaeth gyffredinol ac o flaengynllunio yn parhau i ddatblygu. Mae gan y lleoliad system briodol ar gyfer gwerthuso gwaith yr ymarferwyr.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan y prif ymarferydd wybodaeth dda o brif gryfderau'r lleoliad ac o rai meysydd i'w datblygu. Mae'r ymarferwyr yn cyd-drafod yn rheolaidd ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach.

Gyda chymorth athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg, mae'r prif ymarferydd wedi cynnal arfarniad cytbwys o'r ddarpariaeth. Mae'r cynllun gwella a gynhyrchwyd yn sgil hyn yn nodi meysydd priodol ar gyfer gwelliant. Mae'r ymarferwyr wedi cychwyn ar y gwaith o weithredu'r cynllun a cheir sylwadau addas ar y cynnydd a wneir.

Caiff agweddau ar y ddarpariaeth eu monitro'n rheolaidd gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod addysg a swyddog Mudiad Meithrin. Mae meysydd i'w datblygu yn cael eu cytuno a gweithredir strategaethau effeithiol. Ceisir barn rhieni yn briodol trwy drafod a thrwy holiaduron.

Mae gan y prif ymarferydd brofiad helaeth o weithio gyda phlant ac yn ystod y cyfnod hwn mae wedi derbyn hyfforddiant ar ystod eang o agweddau yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Gwna ddefnydd effeithiol o'r hyfforddiant. Mae'r ymarferwyr eraill yn mynychu cyrsiau priodol ac mae rhaglen o hyfforddiant pellach mewn lle.

Mae'r dyddiau hyfforddiant yn cynnig cyfleoedd priodol i ymarferwyr drafod a rhannu syniadau gydag eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad nifer o bartneriaethau strategol sydd yn cyfrannu'n effeithiol at ansawdd y ddarpariaeth a datblygiad plant. Caiff nodau ac amcanion y lleoliad eu rhannu gyda'r partneriaid.

Mae perthynas dda rhwng y lleoliad a'r rhieni a chadarnhawyd hyn yn ystod yr arolygiad. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy lyfrynnau, cylchlythyron a'r hysbysfwrdd yn y cyntedd. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i drafod ar ddechrau a diwedd pob sesiwn.

Mae'r bartneriaeth agos gyda'r person cofrestredig, y pwyllgor rheoli, yr athrawes ymgynghorol a swyddog Mudiad Meithrin yn cynorthwyo gwaith y lleoliad.

Mae'r cysylltiadau gyda'r gymuned yn dylanwadu'n effeithiol ar ddysgu'r plant. Mae defnydd adeiladol o ymweliadau i ymestyn profiadau'r plant, ac o gysylltiadau gydag asiantaethau a mudiadau lleol i gefnogi'r ymgyrchon i godi arian. Mae'r cysylltiadau cadarnhaol gyda'r ysgol gynradd yn cynnig cyfleoedd da i'r ymarferwyr a'r plant ddefnyddio'r adnoddau dysgu sydd ar safle'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a gwneir defnydd adeiladol o amser a medrau'r ymarferwyr. Mae ystod dda o adnoddau dysgu a gwneir defnydd llawn ohonynt. Mae adeilad a thir y lleoliad yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae gan y prif ymarferydd a'r trysorydd ddealltwriaeth dda o'r gyllideb ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn ôl anghenion y lleoliad. Gwneir defnydd rheolaidd o ymgyrchon codi arian ac o grantiau i ychwanegu at y cyflenwad o adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer fach o ymatebion a dderbyniwyd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad ac yn mwynhau chwarae gyda'u ffrindiau a chymryd rhan ymhob gweithgaredd.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.)<br>Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |